# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 10 i 17 Mai 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

2 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Cyfarfodydd gyda CBAC

**Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi manylion y cysylltu personol a fu rhyngddo ef a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru dros y chwe mis diwethaf? (WAQ11378)

**Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi manylion y cysylltu personol a fu rhwng ei swyddogion ef a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru dros y chwe mis diwethaf? (WAQ11379)

**Prif Weinidog Cymru**: Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddodd Jane Davidson i'ch naw cwestiwn ynghylch CBAC ar 8 Mai.

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Arian a Wariwyd ar Waith Ffyrnasait Abercwmboi

**Christine Chapman:** Faint yw cyfanswm yr arian sydd wedi cael ei wario, gan, ar ran, ac ar gyfer Awdurdod Datblygu Cymru mewn perthynas â'r gwaith Ffyrnasait yn Abercwmboi yng Nghwm Cynon? (WAQ11375)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Cyfanswm y gwariant gan, ar ran, ac ar gyfer Awdurdod Datblygu Cymru ar safle gwaith Ffyrnasait yn Abercwmboi yw £600,000.

### Ymweliad Gweinidogol â'r Gymdeithas Biognosis

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog nodi pwy aeth gydag ef ar ei ymweliad gweinidogol â'r Gymdeithas Biognosis yn Aberystwyth ar 20 Chwefror 2001? (WAQ11682)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog nodi ar ba sail y gwahoddwyd y sawl oedd gydag ef ar ei ymweliad gweinidogol â'r Gymdeithas Biognosis ar 20 Chwefror 2001? (WAQ11683)

**Michael German:** Yn ystod fy ymweliad â'r Gymdeithas Biognosis, dim ond fy ysgrifennydd preifat cynorthwyol a ddaeth gyda mi. Y Gymdeithas Biognosis a wahoddodd bawb arall a oedd yn bresennol yn y digwyddiad.

### Ymweliadau ag Ysgol Uwchradd St Joseph yn Wrecsam

**Nick Bourne:** Faint o weithiau y mae'r Gweinidog wedi ymweld ag Ysgol Uwchradd St Joseph yn Wrecsam yn rhinwedd ei swydd fel Dirprwy Brif Weinidog neu Weinidog dros Ddatblygu Economaidd? (WAQ11684)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog nodi dyddiadau ac amserau ei ymweliadau ag Ysgol Uwchradd St Joseph, Wrecsam yn rhinwedd ei swydd fel Dirprwy Brif Weinidog neu Weinidog dros Ddatblygu Economaidd? (WAQ11685)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog nodi pwy aeth gydag ef ar ei ymweliadau ag Ysgol Uwchradd St Joseph, Wrecsam yn rhinwedd ei swydd fel Dirprwy Brif Weinidog neu Weinidog dros Ddatblygu Economaidd? (WAQ11686)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog nodi ar ba sail y gwahoddwyd y sawl a oedd gydag ef ar ei ymweliadau ag Ysgol Uwchradd St Joseph Wrecsam? (WAQ11687)

**Michael German**: Nid wyf wedi ymweld ag Ysgol Uwchradd St Joseph yn Wrecsam yn rhinwedd fy swydd fel Dirprwy Brif Weinidog Cymru neu'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Yr wyf wedi ymweld â'r ysgol yn rhinwedd fy swydd fel arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a daeth gweithwyr eraill y blaid a chynghorwyr lleol y Democratiaid Rhyddfrydol gyda mi.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Sefyll Arholiad Sgiliau Allweddol drwy Gyfrwng y Gymraeg

**Gareth Jones:** Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i geisio sicrhau cyfle cyfartal i'r rheini sydd yn dewis sefyll arholiad sgiliau allweddol drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn nesaf? (WAQ11540) [W]

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru yn sefydlu contract ar y cyd â'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm yn Lloegr a'r Cyngor Cwricwlwm, Asesiadau ac Arholiadau yng Ngogledd Iwerddon er mwyn cynhyrchu profion ar gyfer 2001 i 2004 yn y Saesneg a'r Gymraeg. Y nod yw cael trefniadau yn barod cyn gynted â phosibl i gynnig yr un nifer o gyfleoedd am brofion yn y ddwy iaith.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Arbedion o Ddefnyddio'r Prawf Dylunio, Adeiladu, Cyllido a Gweithredu ar yr A55

**David Davies:** Faint o arbedion yr amcangyfrifir a ddaw o ddefnyddio'r prawf dylunio, adeiladu, cyllido a gweithredu ar yr A55? (WAQ11293)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex)**: Amcangyfrifir mai tua £30 miliwn yw cyfanswm yr arian a arbedwyd, yn ôl prisiau 1998, yn y gwaith o ddylunio, adeiladu a chynnal yr A55 dros gyfnod 30 mlynedd cytundeb DBFO, o'i gymharu â defnyddio dulliau confensiynol y sector cyhoeddus o wneud yr un gwaith, wedi'i seilio ar ragamcanion traffig y Gyfarwyddiaeth Trafnidiaeth. Os bydd y traffig yn codi'n uwch na'r lefelau hyn, byddai hyn yn lleihau'r arbedion i leiafswm o £20 miliwn.

### Ymchwiliad i Effeithiau Clwy'r Traed a'r Genau

**David Davies:** A fydd y Gweinidog yn gorchymyn cynnal ymchwiliad i effeithiau clwy'r traed a'r genau ar yr amgylchedd unwaith y dileir y clwyf yng Nghymru? (WAQ11390)

**Sue Essex**: Mae Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac awdurdodau lleol yn ymgymryd â'r gwaith o fonitro'r effeithiau amgylcheddol yng nghyffiniau safleoedd gwaredu, a bydd y canlyniadau o gymorth i ni wrth asesu effeithiau clwy'r traed a'r genau ar yr amgylchedd.

Byddaf i, a'm cydweithwyr yn y Cabinet, am sicrhau ein bod yn dysgu cymaint â phosibl o ddigwyddiadau'r wythnosau diwethaf, gan gynnwys yr effaith ar yr amgylchedd.

### Rheoliadau'r UE ar Wastraff a/neu Losgi

**David Davies:** A yw llosgi cyrff anifeiliaid yng Nghymru yn torri unrhyw un o reoliadau'r Undeb Ewropeaidd ar wastraff a/neu losgi? (WAQ11396)

**Sue Essex**: Nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw reolau wedi cael eu torri.

### Caniatâd Cynllunio Arbed Cymaint o Ynni ag sydd yn Ymarferol Bosibl

**David Davies:** A oes unrhyw gynlluniau i ganiatáu i awdurdodau cynllunio lleol osod amodau ar ganiatâd cynllunio er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol bod adeiladau yn arbed cymaint o ynni ag sydd yn ymarferol bosibl? (WAQ11397)

**Sue Essex**: Nid yw'r rhan fwyaf o fesurau effeithiolrwydd a chadwraeth ynni ar raddfa fechan yn rhan o reolaeth cynllunio ond gall elfennau o ddylunio, megis patrwm tai, dwysedd, treiddiad goleuni a phlannu llystyfiant cysgodol i gyd effeithio ar berfformiad ynni. Mae'r drafft 'Polisi Cynllunio Cymru', a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ar 27 Chwefror, yn gryf o blaid hyrwyddo datblygiadau sy'n ymgorffori lefelau uchel o effeithiolrwydd ynni.

Mae adolygiad manwl o 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Ynni Adnewyddadwy' ar y gweill. Bydd hwn yn ystyried yr holl oblygiadau cynllunio sy'n ymwneud â datblygu'r holl ffynonellau ynni adnewyddadwy yng Nghymru, gan gynnwys i ba raddau y gall gwaith cynllunio ddylanwadu ar gadwraeth ynni fel rhan o osodiad, lleoliad a dyluniad datblygiadau newydd. Gall defnyddio amodau cynllunio yn y modd cywir wella ansawdd rheolaeth datblygu a gall o bosibl roi sylw i gysylltiadau penodol rhwng cadwraeth egni ac agweddau cynllunio mewn gwaith datblygu, fel a nodwyd uchod. Rhaid i amodau cynllunio o'r fath, fodd bynnag, fodloni'r profion a osodir yng Nghylchlythyr 35/95 y Swyddfa Gymreig, 'Defnyddio Amodau gyda Chaniatâd Cynllunio'.

### Cyfarpar Nwy Gwastraff yng Ngwaith Trin Carthion Nash

**David Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chydweithwyr yn yr Adran Masnach a Diwydiant ynghylch cynnydd prosiectau ymchwil sydd yn monitro'r cyfarpar nwy gwastraff yng ngwaith trin carthion Nash ger Casnewydd? (WAQ11398)

**Sue Essex**: Dim, er fy mod yn ymwybodol o'r cynllun hwn.

### Prosiectau Cymreig i Ddatrys Problemau Carthion

**David Davies:** A gyflwynwyd unrhyw brosiectau Cymreig i ddatrys problemau carthion o dan raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd? (WAQ11399)

**Sue Essex**: Ni chyflwynwyd unrhyw brosiectau o'r fath hyd yma.

### Pasiau Bws am Ddim

**Helen Mary Jones:** Pryd y bydd pensiynwyr yn cael gwneud cais am basiau bws sydd ar gael am ddim ac sydd yn gwarantu teithio am hanner pris ar fysiau lleol? (WAQ11466)

**Sue Essex**: Mae'r Cynulliad yn darparu cronfeydd i awdurdodau lleol drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol er mwyn eu galluogi i roi pasiau bws am ddim i bensiynwyr a phobl anabl o fis Ebrill 2001.

### Gwneud Cais am Basiau Bws am Ddim

**Helen Mary Jones:** Sut y gall pensiynwyr wneud cais am basiau bws sydd ar gael am ddim ac sydd yn gwarantu teithio am hanner pris ar fysiau lleol? (WAQ11467)

**Sue Essex**: Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weithredu cynlluniau teithio consesiynol yn eu hardaloedd, ac felly efallai y bydd eu trefniadau manwl yn amrywio. Fodd bynnag, yr wyf ar ddeall efallai y bydd gofyn i'r bobl sy'n gymwys gefnogi eu cais drwy ddangos eu llyfr pensiwn, prawf eu bod yn byw yn ardal yr awdurdod lleol neu dystiolaeth ddogfennol debyg. Gellir gwneud cais ysgrifenedig neu drwy fynd i swyddfeydd yr awdurdod lleol neu, lle bynnag y bo trefniadau o'r fath ar gael, drwy asiant a benodwyd gan yr awdurdod. Mannau eraill posibl fyddai swyddfeydd post lleol, fel a gredaf sydd yn Sir Gaerfyrddin, neu lyfrgelloedd. Dylai pensiynwyr gysylltu â'u hawdurdod lleol yn gyntaf er mwyn gwybod beth yw ei ofynion penodol.

### Arwyddion Ffyrdd Dwyieithog

**Nick Bourne:** A oes gweithdrefn bolisi genedlaethol o safbwynt arwyddion ffyrdd dwyieithog lle mae'r Gymraeg yn dod o flaen y Saesneg? (WAQ11544)

**Sue Essex**: Awdurdodau priffyrdd lleol sy'n penderfynu drostynt eu hunain pa iaith sy'n cael blaenoriaeth ar arwyddion ffyrdd dwyieithog. Mae'r polisi hwn yn galluogi trefn yr ieithoedd ym mhob sir i adlewyrchu dymuniadau a nodweddion lleol yr ardal honno. Mae'r Cynulliad yn dilyn trefn yr awdurdodau lleol mewn perthynas ag arwyddion priffyrdd.

### Safle Llosgydd yn Crymlyn Burrows

**Alun Cairns:** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu cymeradwyo neu wrthod trwydded IPPC i gymeradwyo safle'r llosgydd yn Crymlyn Burrows? (WAQ11585)

**Sue Essex**: Cyfrifoldeb Asiantaeth yr Amgylchedd yw penderfynu a ddylid awdurdodi'r gwaith hwnnw ai peidio.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Cyllid Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

**Janet Ryder:** Faint o awdurdodau lleol sydd wedi nodi pa gymunedau o fewn eu hardal a ddylai dderbyn cyllid gan Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (WAQ11420)

**Janet Ryder:** Faint o awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno'u bidiau ar gyfer cyllid y cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (WAQ11421)

**Janet Ryder:** Pa awdurdodau lleol sydd wedi enwi'r cymunedau hynny o fewn eu hardaloedd a ddylai dderbyn cyllid y cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (WAQ11428)

**Janet Ryder:** Pa awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno'u bidiau ar gyfer cyllid y cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (WAQ11429)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart)**: Ar hyn o bryd, mae 20 o'r 22 awdurdod lleol wedi enwebu'r cymunedau y dymunant eu cynnwys yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Mae swyddogion mewn cysylltiad â'r ddau awdurdod lleol arall. Byddaf yn cyhoeddi pa gymunedau sydd wedi eu cynnwys yn y rhaglen o fewn yr ychydig wythnosau nesaf. Bryd hynny, estynnir gwahoddiad i awdurdodau lleol wneud cais am nawdd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar gyfer amryw o weithgareddau.

### Cychwyn y Cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

**Janet Ryder:** Pryd y bydd y cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn cychwyn? (WAQ11422)

**Edwina Hart**: Pan fyddaf yn cyhoeddi pa ardaloedd sydd wedi eu cynnwys yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, byddaf yn eu gwahodd i wneud cais am nawdd i gynnal amryw o weithgareddau a fydd yn adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer rhaglen hirdymor lwyddiannus.

### Casgliad yr Awdurdodau Lleol o Wybodaeth am Ardaloedd o Fewn Wardiau

**Janet Ryder:** Sut y mae'r Cynulliad yn monitro'r modd y mae'r awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth am ardaloedd o fewn wardiau? (WAQ11423)

**Janet Ryder:** A oes rheidrwydd i awdurdodau lleol gasglu data ynghylch cymunedau sydd yn dioddef o amddifadedd o fewn wardiau? (WAQ11425)

**Janet Ryder:** Sut y disgwylir i awdurdodau lleol nodi cymunedau sydd yn dioddef o amddifadedd o fewn wardiau? (WAQ11426)

**Edwina Hart**: Estynnwyd gwahoddiad i awdurdodau lleol sy'n cynnwys ardaloedd sy'n dioddef o amddifadedd ar lefel o fewn y wardiau, ac felly nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y fynegrif amddifadedd lluosog, i enwebu'r ardaloedd hynny a ddylai gael eu cynnwys yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf drwy gyflwyno tystiolaeth o amddifadedd, capasiti presennol ac ymgynghori â'r cymunedau dan sylw.

Ym mharagraff 3.7 ail bapur ymgynghori Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, gosodwyd canllawiau ar gyfer nodi cymunedau ar lefel o fewn wardiau. Rhestrwyd y dangosyddion angenrheidiol a gwahoddwyd awdurdodau lleol i gyflwyno unrhyw dystiolaeth ychwanegol a oedd ganddynt ar lefel leol, gan gynnwys canlyniadau arolygon lleol, ymarferion proffilio cymunedau neu ddigwyddiadau cymunedol.

Ddiwedd mis Mawrth, ysgrifennais at arweinydd pob awdurdod lleol, gan roi mwy o fanylion iddynt er mwyn eu cynorthwyo i nodi cymunedau sy'n dioddef o amddifadedd o fewn wardiau.

Yr ydym ar hyn o bryd yn ffurfio panel o swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol a chynrychiolwyr allanol i ystyried yr enwebiadau a gwneud argymhellion i dasglu gweinidogol.

## Ariannu Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

**Janet Ryder:** A oes mecanwaith yn bodoli i ganiatáu i gymunedau, a gaiff eu taflu i gyfnod o amddifadedd o ganlyniad i newidiadau sydyn yn eu hamgylchiadau, dderbyn cyllid Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (WAQ11424)

**Janet Ryder:** A fydd cymunedau sydd yn dioddef newidiadau economaidd eithafol yn cael ymgeisio am gyllid y cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, ar ôl i'r cynllun gychwyn? (WAQ11511)

**Edwina Hart**: Mae'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn edrych ar atebion hirdymor ac mae'n targedu arian i adfywio'r cymunedau mwyaf amddifad yng Nghymru. Os gall awdurdodau lleol ddangos bod ardaloedd sy'n profi newidiadau sydyn yn eu hamgylchiadau ymysg y rhai mwyaf difreintiedig, yna byddaf yn ystyried eu cynnwys yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

## Defnyddio Cyllid Rhoi Cymunedau'n Gyntaf fel Arian Cyfatebol ar gyfer Amcan 1

**Janet Ryder:** A fydd cyllid y cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn cael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer Amcan 1? (WAQ11427)

**Edwina Hart**: Mater i bartneriaethau cyflwyno Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a'r partneriaethau gweithredu lleol fydd penderfynu hyn, gan mai hwy fydd yn gweinyddu bidiau dan Amcan 1. Fodd bynnag, yr ydym wedi ei gwneud yn eglur yn ystod y broses ymgynghori bod manteisio i'r eithaf ar nawdd Ewropeaidd yn hanfodol a bod arian Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn debyg o fod yn ffynhonnell dda o arian cyfatebol ar gyfer rhaglen Amcan 1. Mae'r Cynulliad am i'r ddwy raglen lwyddo er budd cymunedau sy'n dioddef o amddifadedd.

## Grant i Fyddin yr Iachawdwriaeth

**Jonathan Morgan:** A all y Gweinidog gadarnhau pa un a ddyfarnwyd y grant o £250,000 a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru ar 13 Medi 2000 i Fyddin yr Iachawdwriaeth i helpu ei gwaith gydag adferiad cyffuriau ac alcohol, er mwyn ariannu'r gwaith o ddatblygu uned yn North Road, Gabalfa, Caerdydd? (WAQ11519)

**Edwina Hart:** Ym Mai 2000, cyhoeddodd y Cynulliad bedair rhaglen nawdd ar gyfer cynlluniau'r sector gwirfoddol, wedi'u hanelu at fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. Cyhoeddwyd hefyd swm untro gwerth £3.6 miliwn ar gyfer 2000-01 yn unig er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu atebion strategol cynaliadwy i ddigartrefedd ac i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â digartrefedd a thai amlddeiliadaeth.

Gallaf gadarnhau y rhoddwyd y grant ar gyfer y prosiect hwn mewn ymateb i'r cais a wnaed drwy Gyngor Dinas a Sir Caerdydd ar gyfer y gronfa hon. Fodd bynnag, oherwydd y pryderon mawr ynghylch pa mor agos yw'r prosiect arfaethedig i Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph, mae swyddogion y Cynulliad a swyddogion y cyngor yn cynnal trafodaethau gyda Byddin yr Iachawdwriaeth, er mwyn canfod ateb boddhaol i'r broblem anodd hon. Deallaf fod grŵp o rieni o'r ysgol wedi cwrdd â Ms Jane Hutt AC ddoe ac y dosbarthwyd llythyr yn esbonio'r sefyllfa bresennol.

Gobeithir y bydd adroddiad o ganlyniad y trafodaethau hynny ar gael i rieni yn gynnar yr wythnos nesaf.

### Trefniadau Disgownt ar gyfer Eiddo Hawl i Brynu

**Nick Bourne:** Gan gyfeirio at y newidiadau i'r trefniadau disgownt ar gyfer eiddo hawl i brynu yng Ngorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau Disgownt) (Cymru) 1999, a gafodd mesur tebyg ei wneud yn Lloegr? (WAQ11546)

**Edwina Hart**: Do. Cyflwynodd Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau Disgownt) (Cymru) 1998 (OS 1998 Rhif 2997) fesurau tebyg yn Lloegr, ac fe'u rhoddwyd ar waith o 11 Chwefror 1999.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Offal wedi'i Heintio â BSE (Pwllfa Watkin)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw offal wedi'i heintio â BSE sydd wedi'i adael ym Mhwllfa Watkin, Rhyd-y-fro (1996 yw'r flwyddyn y credir iddo gael ei adael yno)? (WAQ11328)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones)**: Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi fy hysbysu na adawyd unrhyw offal yn safle sbwriel Pwllfa Watkin yn sgîl gadael cyrff wedi'u heintio â BSE yno. Mae'r asiantaeth hefyd wedi fy hysbysu bod, rhwng 6 Medi 1996 a 18 Ionawr 1997, offal anifeiliaid a oedd wedi eu lladd ar gyfer y gadwyn fwyd (tua 95 y cant yn ddefaid) wedi cael ei dderbyn i'w waredu ar y safle. Yn ystod y cyfnod hwnnw, derbyniodd y safle hefyd gig wedi'i rendro a blawd esgyrn, unwaith eto o ddefaid yn bennaf, gydag unrhyw ddeunydd gwartheg yn dod o anifeiliaid a oedd yn llai na 30 mis oed (hynny yw, wedi'u lladd ar gyfer y gadwyn fwyd). Derbyniwyd yr holl ddeunydd yn unol ag amodau trwydded rheoli gwastraff y safle.

### Ymchwiliad i Effeithiau Clwy'r Traed a'r Genau ar Economi Cymru

**David Davies:** A fydd y Gweinidog yn gorchymyn ymchwiliad i effeithiau clwy'r traed a'r genau ar economi Cymru pan fydd y clwyf wedi cael ei ddileu yng Nghymru? (WAQ11387)

**Carwyn Jones**: Mae'r Cabinet eisoes wedi cyhoeddi cynlluniau i liniaru effaith gychwynnol y clwyf ar economi ehangach Cymru. Yr ydym yn parhau i asesu goblygiadau ehangach clwy'r traed a'r genau.

### Ymarferion Cynllunio Brys

**David Davies:** A yw Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad yn cynnal ymarferion cynllunio brys mewn perthynas ag achosion posibl o afiechydon heintus ymhlith anifeiliaid a pha adrannau, asiantaethau a chyrff eraill sydd yn cymryd rhan? (WAQ11388)

**Carwyn Jones**: Cyfrifoldeb y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, ac nid y Cynulliad, yw rheoli'r rhan fwyaf o glwyfau egsotig ymysg anifeiliaid fferm, hynny yw, clwyfau nad ydynt fel arfer yn bresennol yng Nghymru. Mae cynlluniau wrth gefn a rhaglenni hyfforddiant ar waith i ddelio â'r posibiliadau hyn a chynhelir ymarferion yn rheolaidd, sy'n cynnwys amryw o asiantaethau, gan ddibynnu ar y clwyf dan sylw. Bydd y rhain bob amser yn cynnwys y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, yr awdurdodau lleol a'r heddlu.

**Y Genyn a Elwir 'Terminator'**

**David Davies:** Pa fathau o ddeunydd a addaswyd yn enetig a gaiff eu defnyddio yn y treialon cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru ac a gaiff y genyn a elwir 'terminator' ei ddefnyddio, ac ar ba safleoedd? (WAQ11389)

**Carwyn Jones**: Cnwd indrawn a addaswyd yn enetig ac sy'n goddef chwynladdwyr, gyda digwyddiad trawsnewid T25, yw'r cnwd a brofir. Ni ddefnyddir unrhyw dechnoleg 'terminator' yn y cnwd hwn.

**Talu'r Gost o Dyfu Cnwd Indrawn a Addaswyd yn Enetig yng Nghymru**

**Glyn Davies:** A yw'r Gweinidog wedi gwneud asesiad o bwy a fyddai'n talu'r gost o dyfu cnwd indrawn a addaswyd yn enetig yng Nghymru yn 2001? (WAQ11514)

**Carwyn Jones**: Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau sy'n gyfrifol am dalu'r costau sy'n ymwneud â monitro'r rhaglen gwerthuso graddfeydd ffermydd. Mater i Gynllun y Gadwyn Gyflenwi ar Gnydau Amaethyddol a Addaswyd a'r cynhyrchwyr hadau yw'r costau eraill.

**Cyfanswm y Costau o Dyfu Cnwd Indrawn a Addaswyd yn Enetig yng Nghymru**

**Glyn Davies:** A yw'r Gweinidog wedi gwneud asesiad o gyfanswm y costau o dyfu cnwd indrawn a addaswyd yn enetig yng Nghymru yn 2001? (WAQ11515)

**Carwyn Jones**: Nid yw'r Cynulliad wedi cynnal asesiad o'r fath. Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau sy'n gyfrifol am dalu'r costau sy'n ymwneud â monitro'r rhaglen gwerthuso graddfeydd ffermydd. Mater i Gynllun y Gadwyn Gyflenwi ar Gnydau Amaethyddol a Addaswyd a'r cynhyrchwyr hadau yw'r costau eraill.

**Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr yn Nyfroedd Cymru**

**Cynog Dafis:** Beth yw'r gost flynyddol o reoleiddio pysgodfeydd môr yn nyfroedd Cymru a sut y telir am hyn? (WAQ11541)

**Cynog Dafis:** Sut y cynhelir y gwaith o reoleiddio pysgodfeydd môr yn nyfroedd Cymru? (WAQ11542)

**Carwyn Jones**: Mae cyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol dros bysgodfeydd môr yn ymestyn i'r terfyn 12 milltir. O fewn y terfyn hwnnw, rheoleiddir y gwaith ar ran y Cynulliad gan Arolygiaeth Pysgodfeydd Môr y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd. Y gost flynyddol yw £160,000 a thelir y gost honno o gyllideb MAFF dan gytundeb trosglwyddo dyletswyddau 1979. Mae'r cytundeb hwnnw hefyd yn cynnwys taliad blynyddol gwerth £341,095 gan MAFF, ar ran y Cynulliad, i'r Llynges Frenhinol ar gyfer gwaith gwyliadwriaeth ar y môr. Cyllideb y Cynulliad sy'n talu'r gost flynyddol o £165,977 ar gyfer gwyliadwriaeth awyr.

Yn ogystal â hyn, ceir dau bwyllgor pysgodfeydd môr sy'n gorfodi eu his-ddeddfau eu hunain o fewn y terfyn 0 i 6 milltir ar arfordiroedd Cymru. Ariennir y pwyllgorau drwy osod treth ar aelodau awdurdod lleol eu hetholaeth. Cyfanswm y trethi ar gyfer 2000-01 oedd £678,400 (Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De

Cymru - £343,300, a Phwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a’r Gogledd Orllewin - £335,100). Mae’r symiau hynny’n ariannu amryw o weithgareddau a gynhelir gan y pwyllgorau.

### Llongau Diogelu Pysgodfeydd y Llynges Frenhinol (Glanio)

**Cynog Dafis:** Sawl gwaith y glaniodd tair llong diogelu pysgodfeydd y Llynges Frenhinol yn nyfroedd Cymru er mwyn rheoleiddio pysgodfeydd môr, yn ystod y 10 mlynedd diwethaf? (WAQ11543)

**Carwyn Jones**: Isod, ceir tabl yn dangos sawl gwaith y glaniodd y llongau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf:

**Glanio Pysgodfeydd yn Nyfroedd Cymru**

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1990 | 1991 | 1992 | 1993 | 1994 | 1995 | 1996 | 1997 | 1998 | 1999 | 2000 |
| | | | | | | | | | | |
| 22 | 35 | 20 | 43 | 12 | 18 | 29 | 19 | 21 | 37 | 26 |

### Talu Contractwyr Lladd Anifeiliaid

**Kirsty Williams:** Faint sydd wedi’i dalu i gontractwyr lladd anifeiliaid yn ystod yr achos hwn o glwy’r traed a’r genau yng Nghymru? (WAQ11548)

**Carwyn Jones**: Mae’r cwestiwn hwn yn ymwneud â chyfrifoldebau’r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, a dylid ei gyfeirio ati i’w ateb.

### Cwmnïau Contractio a Gyflogwyd i Ladd Anifeiliaid

**Kirsty Williams:** Sawl cwmni contractio sydd wedi’u cyflogi i ladd anifeiliaid yn ystod yr achos hwn o glwy’r traed a’r genau yng Nghymru? (WAQ11549)

**Carwyn Jones**: Mae’r cwestiwn hwn yn ymwneud â chyfrifoldebau’r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, a dylid ei gyfeirio ati i’w ateb.

### Cymorth a Roddwyd i Gwmni Caws Dyffryn Aeron

**Elin Jones:** Pa lefel o gymorth ariannol cyhoeddus a roddwyd i gwmni Caws Dyffryn Aeron i ddatblygu prosesu a phacio caws o 1998 hyd heddiw? (WAQ11583) [W]

**Carwyn Jones:** Talwyd £503,541 i gwmni Caws Dyffryn Aeron ers 1998 mewn grant prosesu a marchnata a ddyfarnwyd ar gyfer storfa gaws a chyfleuster pacio.